

Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 5 Ebrill 2023, am 6.00pm.

PRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, K. R. Jones,
Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker
a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

51. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr M. Blackwell, S. Feeney, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James a P. Prendergast.

52. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS MAWRTH 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion yr atodlen taliadau a'r incwm a dderbyniwyd.

Taleb Rhif	Enw'r cyflenwr	Swm	Disgrifiad y nwyddau/ gwasanaethau
1526	Tesco Mobile	3.00	Taliad yswiriant misol
1601	BT	269.17	Llinell ffôn a band eang
1602	HSBC	15.30	Ffioedd bancio 17 Ionawr – 16 Chwefror 2023
1539	Tesco Mobile	3.00	Taliad yswiriant misol
1603	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	2,983.51	Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Chwefror 2023
1604	Cronfa Bensiwn Clwyd	4,464.11	Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Chwefror 2023
1605	Staff Cyngor Tref y Rhyl	7,861.70	Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl – mis Mawrth 2023
1419	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apeliadau rhan amser – taliad 12 o 12
1435	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	2,000.00	Swyddog Effeithlonrwydd Ynni 22/23 – taliad 4 o 4
	Cyfanswm y taliadau	18,516.45	

Categori	Disgrifiad	Swm
Santander	Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod	198.88
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod	23.03
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod	23.03
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod	23.03
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod	23.03

HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo 7 diwrnod	26.85
Amrywiol	Tocynnau i ddigwyddiad elusennol y Maer	1,925.00
Royal Sun Alliance	Hawliad yswiriant am y gysgodfan bws ar Ffordd yr Arfordir	6,657.28
	Cyfanswm yr incwm	£8,900.13

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

53. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Clerc y Dref (rhestr o'r taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Taleb rhif	Cyflenwr	Manylion y cyflenwad	Swm £
1609	Cyngor Sir Ddinbych	Dau docyn i Ginio Elusennol y Cadeirydd ar 27 Ebrill 2023	50.00
1610	Cyngor Sir Ddinbych	Taliadau'r is-etholiad – Ward Tŷ Newydd	3,287.35
1611	JDH Business Services Ltd	Ffi'r Archwiliad Mewnol interim 2022/23	432.00
	Cyfanswm Atodlen B		£3,769.35

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

54. DATGANIAD Y TALIADAU ARIAN MÂN: MIS EBRILL 2022 – MIS MAWRTH 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a oedd yn cynnwys manylion yr hyn a brynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gan ddefnyddio'r cyfrif Arian Mân, yn dod i gyfanswm o £76.34, i'r aelodau ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

55. ADRODDIAD SICRWYDD CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISGIAU 2022/23

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.

56. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL INTERIM 2022

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad) yn hysbysu fod yr Archwilydd Mewnol wedi nodi dau fater yr oedd angen talu sylw iddynt.

Roedd y cyntaf yn ymwneud â chodiad cyflog i swyddogion o ran fod yr asiant cyflogres (Sage) yn derbyn neges e-bost gan swyddog i'w hysbysu. Mae'r Archwilydd yn cynghori y dylai'r neges e-bost gael ei hanfod gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol. Hefyd, dylid diweddarau'r cytundeb cyflogres i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth Diogelu Data ddiweddaraf, sef ei newid o Ddeddf Diogelu Data 1998 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

Yr ail yw fod y gweithdrefnau cyfredol ynghylch rhoddion a lletygarwch fel y nodir yn y Cod Ymddygiad a fabwysiadwy yn berthnasol i aelodau yn unig. Mae'r Archwilydd yn cynghori y dylai'r polisi gwmpasu swyddogion hefyd.

Awgrymodd Clerc y Dref gyfeirio'r mater at yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau i ystyried y meysydd yr oedd angen gweithredu arnynt.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r materion a nodwyd uchod i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w hysytyried yn llawn ac argymhell camau gweithredu.

57. ADOLYGU CYNLLUN Y DREF – HYRWYDDWR IEUENCTID

Ymhellach i gofnod rhif 152 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023, cyfeiriodd y Cadeirydd at y Disgrifiad Swydd drafft ar gyfer swydd yr Hyrwyddwr Ieuenctid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Disgrifiad Swydd a gwneud penodiad yn neu yn dilyn Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor ym mis Mai.

58. PROTOCOL CYNGOR TREF Y RHYL I GYNGHORWYR TREF WRTH HYSBYSU AM FATERION Y CYNGOR SIR

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn i'r aelodau ailgadarnhau'r protocol cyfredol ynghylch hysbysu am faterion Cyngor Sir Ddinbych.

Cynghorodd Clerc y Dref mai hwn oedd y cyntaf o nifer o ddogfennau polisi y byddai'n eu cyflwyno'r i'r aelodau i'w hadolygu a'u hail gymeradwyo.

Rhoddodd Clerc y Dref grynoded y dylid hysbysu Gwasanaethau i Gwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych am faterion sy'n gyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych a godir gan drigolion yn y lle cyntaf, a'u cyfeirio at Gynghorydd Sir y ward berthnasol os nad yw'r trigolyn yn fodlon â'r ymateb gan y Gwasanaethau i Gwsmeriaid.

PENDERFYNWYD cymeradwyo a nodi'r protocol.

59. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.

60. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA – CYFARFOD ARFAETHEDIG GYDA'R GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Ymhellach i gofnod rhif 149 cyfarfod y Cyngor ar 15 Mawrth 2023, cyflwynodd Clerc y Dref ei wahoddiad drafft i Eluned Morgan AS (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i ddod i gyfarfod arbennig y Cyngor ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus iddi i roi eglurhad ynghylch dyfodol y bwriad i ailddatblygu Ysbyty Frenhinol Alexandra, ac yn benodol pryd fydd y gwaith yn dechrau ar y safle.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwahoddiad i'w anfon gynted ag y bo modd.

PENDERFYNWYD YMHELLACH gohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.

61. **COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

Yr Is-bwyllgor Cynnal a - 9 Rhagfyr 2022 - Cofnodion rhifau 18 - 26
Chadw Tiroedd

Yr Is-bwyllgor Cynnal a - 27 Ionawr 2023 - Cofnodion rhifau 27 - 30
Chadw Tiroedd

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.

62. **EITEM YCHWANEGOL: CYFARFOD ARBENNIG Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Adroddodd Clerc y Dref, ymhellach i gofnod rhif 49 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022, y galwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn gynnar y diwrnod hwnnw i gwrdd â Hamdden Sir Ddinbych Cyf. i drafod lefel y cyfraniadau ariannol roedd y cwmni yn gofyn amdanynt tuag at y digwyddiadau goleuo'r Goleudau Nadolig a'r noson Pops Nadolig a Gŵyl yr Arena yn yr haf.

Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi'u bodloni gan esboniadau Mr Jamie Groves a Mr Gwyn Hughes ac yn argymhell cymeradwyo'r £5,000 ychwanegol (a fyddai'n cael ei gymryd o'r Gyllideb wrth gefn) tuag at y digwyddiadau.

Yn ychwanegol, dywedodd Clerc y Dref fod Hamdden Sir Ddinbych wedi cytuno i drefnu Diwrnod Calan Mai y Maer / digwyddiad Coroni Ei Fawrhydi y Brenin ar y penwythnos Gŵyl y Banc ychwanegol ar ran y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD:

(i) Cymeradwyo'r £5,000 tuag at ddigwyddiadau'r Nadolig a'r Haf.

(ii) Fod yr aelodau'n cymeradwyo bod Hamdden Sir Ddinbych yn trefnu digwyddiad Calan Mai y Maer / digwyddiad Coroni Ei Fawrhydi y Brenin eleni gyda chyllideb o £6,000.

63. **EITEM YCHWANEGOL: Y CYNGHORYDD MRS P. M. JONES**

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs P. M. Jones ei bod wedi gwneud y penderfyniad anodd i ymddeol fel Cynghorydd Tref yn weithredol o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai eleni.

64. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd:

Dyddiad: